



Adeiladu gwasanaeth prawf Cymreig

Cyflwyniad

Ar hyn o bryd mae'r system cyfiawnder troseddol yng Nghymru yn gweithredu o fewn un awdurdodaeth ar gyfer Cymru a Lloegr, sy'n cael ei gweinyddu gan Lywodraeth y DU.

Yn dilyn casgliadau Comisiwn Thomas, Comisiwn y Blaid Lafur ar Ddyfodol y DU, a'r Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru, mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i weld cyfiawnder yn cael ei ddatganoli i Gymru, ac mae'n credu bod gobaith gwirioneddol y gellid datganoli rhai agweddau ar y system gyfiawnder yn y dyfodol agos. O ganlyniad, mae'n paratoi ar gyfer y posibilrwydd o ddatganoli cyfiawnder yn raddol, gan ddechrau â phrawf a chyfiawnder ieuenctid (Llywodraeth Cymru, 2024).

Gofynnodd Llywodraeth Cymru i Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru wneud ymchwil i gefnogi'r gwaith paratoawl hwn, gan ganolbwyntio ar y mecanweithiau a'r llwybrau cyflawni posibl ar gyfer datganoli. Mae ein hadroddiadau yn ystyried pedwar prif gwestiwn, gyda Rhan 1 yn darparu trosolwg o'r prif ystyriaethau ymarferol a'r opsiynau ar gyfer datganoli, a Rhan 2 yn cyflwyno astudiaethau achos o'r modd y mae gwledydd eraill yn Ewrop yn trefnu eu gwasanaethau prawf.

- Pa fanteision posibl a allai ddeillio o ddatganoli'r gwasanaeth prawf i Gymru?
- Pa ddulliau a modelau o gyflawni'r gwasanaeth prawf a allai wireddu manteision posibl datganoli orau?
- I ba raddau y byddai modd gwireddu'r manteision heb ddeddfwriaeth sylfaenol?
- Pa ystyriaethau anneddfwriaethol y dylid eu hystyried wrth ddatganoli'r

gwasanaeth prawf, a sut y gellid mynd i'r afael â nhw?

Bwriedir i'r gwaith hwn ategu'r gwaith sy'n cael ei wneud gan Grŵp Datblygu'r Gwasanaeth Prawf (PDG), sy'n amlinellu gweledigaeth ar gyfer gwerthoedd, llywodraethu ac arferion gwasanaeth prawf datganoledig yn y dyfodol (Probation Development Group, 2023).

Cyd-destun a manteision datganoli

Ar hyn o bryd mae prawf yn cael ei ddarparu yng Nghymru a Lloegr drwy'r Gwasanaeth Prawf, asiantaeth weithredol a noddir gan Wasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi (HMPPS). Ffurfiwyd y Gwasanaeth Prawf ar ôl ailuno a gwladoli'r system, a fu'n cael ei darparu'n breifat at ei gilydd er 2014.

Er mwyn cyflawni ei swyddogaethau craidd – adsefydlu, goruchwyllo, a rheoli risg – mae angen i wasanaeth prawf sy'n gweithio'n dda fod wedi'i integreiddio'n agos ag asiantaethau oddi mewn ac oddi allan i'r system cyfiawnder troseddol, gan gynnwys y llysoedd, erlynwyr, yr heddlu, tai, addysg, cyflogaeth, lles, a gwasanaethau iechyd. Er bod y rhan fwyaf o'r swyddogaethau cyfiawnder yn rhai a gadwyd yn ôl, mae angen cydweithio agos rhwng gwasanaethau sy'n cael eu darparu ar lefelau lleol a datganoledig, ac ar lefel y DU.

Ar hyn o bryd, mae'r gwasanaeth prawf yn wynebu nifer o heriau sylweddol. Rhybuddiodd arbenigwyr cyn Etholiad Cyffredinol y DU yn 2024 fod y gwasanaeth wedi'i ymestyn i'r eithaf ac nad oedd ganddo'r capasiti i reoli'r troseddwyr presennol, problem sy'n debygol o waethygu yn y tymor byr o ganlyniad i newidiadau yn ddiweddar â'r bwriad o ryddhau

capasiti mewn carchardai (Rowland, 2024). Yn HMPPS, mae trosiant staff uchel a chyfraddau cadw staff gwael hefyd yn broblemau sy'n cael eu cydnabod.

Mae ein gwaith yn ystyried sut y gallai datganoli prawf sicrhau bod modd mynd ar drywydd polisïau sy'n gwella perfformiad prawf yng Nghymru. Gan gadw hyn mewn cof, dwy brif fantais datganoli fyddai:

- Darparu gwell rhyngwyneb â gwasanaethau cyhoeddus sydd wedi'u datganoli i Gymru;
- Cyfle i newid gwerthoedd, model gweithredu ac amodau gwaith mewn gwasanaeth prawf datganoledig.

Mae **darparu gwell rhyngwyneb â gwasanaethau cyhoeddus sydd wedi'u datganoli i Gymru** yn dod o'r awydd i fynd i'r afael â'r 'anghysondebau' yn y system cyfiawnder troseddol bresennol. Mae'r rhain yn digwydd lle mae cyfrifoldebau'n croesi ar draws ei gilydd ac yn cael eu rhannu rhwng llywodraethau Cymru a'r DU, pob un â blaenoriaethau gwleidyddol gwahanol (Jones a Wyn Jones, 2022).

Byddai datganoli prawf felly'n cynnig cyfle i wella cydgysylltu ac integreiddio rhwng gwasanaeth prawf datganoledig a gwasanaethau eraill sydd eisoes wedi'u datganoli i Gymru. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Mwy o gysondeb rhwng polisi ac uchelgeisiau a ffyrdd o weithio yng Nghymru, gan gynnwys dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru);
- Gwell gweithio mewn partneriaeth ym meysydd diogelwch cymunedol a chydlyniant cymunedol;
- Cryfhau perthnasoedd â'r trydydd sector a'r sector preifat yng Nghymru;
- Mwy o ymatebolrwydd i anghenion lleol;
- Mwy o botensial i gydleoli gwasanaethau; a
- Defnydd ehangach o bartneriaethau lleol i gyflawni gwasanaethau.

Mae prawf eisoes yn gweithio gydag asiantaethau y mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol amdanynt, gan gynnwys iechyd, gwasanaethau cymdeithasol, gofal cymdeithasol, tai a rhai elfennau o gymorth cyflogaeth. Gallai datganoli gryfhau'r cysylltiadau hyn a sicrhau bod modd dyrannu adnoddau yn well, fel bod gwasanaethau'n cael eu teilwra yn agosach at anghenion troseddwyr.

Mae datganoli hefyd yn cynnig **cyfle i newid gwerthoedd, model gweithredu ac amodau gwaith** y gwasanaeth prawf. Yn bennaf, byddai hyn yn golygu bod modd mynd i'r afael â diffygion a welir yn y system bresennol. Gallai datganoli gynnig cyfleoedd i helpu i ddatrys problemau sy'n gysylltiedig ag amodau gwaith a chreu cyfle i ymwreiddio gwerthoedd sy'n annibynnol ar y system carchardai, fel bod modd symud tuag at weledigaeth hirdymor newydd. Fodd bynnag, byddai'r graddau y gellir gwireddu'r manteision hyn yn dibynnu ar y model datganoli a ddewisir a'r cyd-destun gweithredol ehangach.



Opsiynau ar gyfer datganoli

Rydym yn cyflwyno tri phrif opsiwn ar gyfer datganoli prawf i Gymru:

1. **Memorandwm cyd-ddealltwriaeth** yn arwain at gydgomisiynu rhai gwasanaethau, yn debyg i'r trefniadau ym Manceinion Fwyaf a mannau eraill;
2. **Trosglwyddo cyfrifoldeb gweithredol** heb gymhwysedd deddfwriaethol, gan ganiatáu goruchwyliaeth weinyddol o brawf i Weinidogion Cymru heb unrhyw bwerau deddfu;

3. Cyfrifoldeb deddfwriaethol a gweithredol llawn yn rhoi pŵer deddfwriaethol i'r Senedd greu gwasanaeth prawf Cymreig.

Mae gan bob un fanteision amlwg, ond bydd angen ystyried rhai pethau'n ofalus a chyfaddawdu. Nid oes angen dewis rhwng y naill a'r llall ychwaith, hynny yw gellid datganoli prawf dros gyfnod, fel bod modd symud ymlaen o un opsiwn i un arall.

Rydym yn amlinellu beth mae pob dull yn ei olygu, y prif ystyriaethau a'r canlyniadau posibl ar gyfer pob opsiwn isod. Mae adroddiad Rhan 1 hefyd yn cynnwys gwerthusiad manylach o'r opsiynau hyn, a thrafodaeth bellach ar saith prif agwedd y mae angen rhoi sylw iddynt fel rhan o unrhyw fodel.

Memorandwm cyd-ddealltwriaeth

Byddai'r dull gweithredu hwn yn seiliedig ar drefniadau datganoli sy'n bodoli'n barod mewn rhannau eraill o'r Gwasanaeth Prawf, yn fwyaf arbennig ym Manceinion Fwyaf. Mae'n cynnwys cytundeb rhwng HMPPS a sefydliad (awdurdod cyfun maerol fel arfer yn Lloegr) ar gyfer cydgomisiynu gwasanaethau yn yr ardal honno. Fodd bynnag, nid yw hyn yn cynnwys rheoli gweithrediadau, cyllid, neu lywodraethu'r gwasanaeth prawf.

Y dull gweithredu hwn fyddai'n golygu'r newid sefydliadol lleiaf, gan nad yw swyddogaethau'n cael eu trosglwyddo'n ffurfiol oddi wrth HMPPS. Ni fyddai angen deddfwriaeth i'w weithredu, a gellid drafftio a gweithredu cytundeb yn weddol gyflym. Nid yw'r trefniant yn barhaol ychwaith – gellir gosod terfynau amser a gall y naill ochr neu'r llall adael y cytundeb unrhyw bryd.

Ar wahân i weithredu'n gyflym, cryfder mwyaf y memorandwm cyd-ddealltwriaeth yw ei fod yn caniatáu mwy o reolaeth ac ymatebolrwydd lleol drwy gydgomisiynu. Ym Manceinion Fwyaf, mae ymdrech barhaus wedi bod i sicrhau bod darparu gwasanaeth yn gyson â blaenoriaethau'r Awdurdod Cyfun Maerol. Mae hyblygrwydd cyllidebol hefyd yn golygu y gellir comisiynu gwasanaethau ochr yn ochr â rhaglenni lleol sy'n bodoli'n barod, gan osgoi

dyblygu gwariant diangen. Mae rhanddeiliaid wedi nodi bod y dull gweithredu hwn yn caniatáu iddynt fod yn hyblyg wrth roi cynnig ar ddulliau gweithredu newydd, heb gael eu cyfyngu gan y trefniadau presennol. Mae manteision amlwg o ran effeithlonrwydd a gwerth am arian, a gallai buddsoddi mewn gwasanaethau sydd wedi'u sefydlu arwain at wella ansawdd darpariaeth, ynghyd â manteision hirdymor posibl o ran canlyniadau i droseddwyd.

Ond er bod mwy o hyblygrwydd o ran y ffordd y mae cyllidebau cytunedig ar gyfer comisiynu gwasanaethau yn cael eu gwario, mae'r cyllidebau hyn yn dal i gael eu pennu gan HMPPS. Byddai unrhyw wariant ychwanegol, os dymunir hynny, yn gorfod dod o rywle arall (o gyllidebau Llywodraeth Cymru neu awdurdodau lleol i ddechrau). Yn ogystal, ar gyfer y dull gweithredu hwn mae angen parodrwydd i integreiddio'r gwasanaeth â gwasanaethau eraill a gomisiynir yn lleol.

Byddai cyfrifoldeb am y gweithlu, llywodraethu, a goruchwyllo'r Gwasanaeth Prawf yn aros yn nwylo HMPPS, a byddai penderfyniadau yn ymwneud â darparu, gweithrediadau, a chyfeiriad strategol yn dal i gael eu gwneud gan Lywodraeth y DU. Ni fyddai hyn yn mynd i'r afael â'r pryderon presennol ynghylch llwyth gwaith a diwylliant sefydliadol.

Byddai angen i Lywodraeth Cymru adeiladu capasiti i ddatblygu a gweinyddu'r memorandwm cyd-ddealltwriaeth, yn ogystal â dylanwadu ar gyfeiriad a chyflawni.

Ar hyn o bryd, dim ond mewn Awdurdodau Cyfun Maerol yn Lloegr y mae'r dull gweithredu hwn yn bodoli, ac mae ganddynt lai o gyfrifoldeb na Llywodraeth Cymru. O ystyried bod gan Lywodraeth Cymru fwy o allu i sicrhau newid, gallai fynd ag agweddau ar y trefniant memorandwm cyd-ddealltwriaeth ymhellach er mwyn sicrhau bod trefniadau yn adlewyrchu'r hyn sydd fwyaf ymarferol i Gymru.

Trosglwyddo cyfrifoldeb gweithredol

Dan Adran 58 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, gellir gwneud gorchymyn trosglwyddo

swyddogaethau er mwyn trosglwyddo cyfrifoldeb gweithredol am y Gwasanaeth Prawf yng Nghymru i Weinidogion Cymru. Gellid gwneud hyn drwy ddefnyddio is-ddeddfwriaeth, ac mae'n cynnig cyfle i newid rhai agweddau ar y gwasanaeth heb fod angen ymrwymo cymaint o adnoddau, a heb yr un graddau o newid â datganoli deddfwriaethol llawn.

Byddai gwasanaeth prawf ar wahân yng Nghymru, sy'n wahanol i'r un yn Lloegr, a byddai gan Weinidogion Cymru bŵer dros y gweithlu, staffio, llywodraethu, caffael, ac (o bosibl) dros werthoedd a model gweithredu prawf yng Nghymru. Fodd bynnag, ni allai'r Senedd basio deddfau sy'n effeithio ar brawf; byddai'r rhain yn parhau'n gyfrifoldeb i Senedd y DU. Byddai union natur swyddogaethau a drosglwyddid yn dibynnu ar negodiadau â Llywodraeth y DU.

Byddai angen i staff drosglwyddo i gorff newydd, a byddai angen rheoli trefniadau ar gyfer cyflog, pensiynau, ac amodau gwaith yn ofalus er mwyn sicrhau cywerthedd. Ni ddylai hyn fod yn gymhleth os yw staff yn parhau'n weision sifil. Er mwyn rheoli'r trefniadau hyn byddai angen cymorth adnoddau dynol parhaus, ond nid oes sicrwydd o gyllid parhaus ychwanegol ar gyfer hyn. Er hyn, gellid addasu elfennau rheoli gweithlu er mwyn gweithredu gwerthoedd a diwylliant sefydliadol newydd, gan gynnwys y potensial i ailgyflwyno'r angen am gymhwyster gwaith cymdeithasol.

Nid yw'n debygol y gellid datganoli cyfrifoldeb am brawf ymhellach i awdurdodau lleol yn y senario hon. Fodd bynnag, gellid addasu llywodraethu rhanbarthol i helpu i sicrhau bod prawf yn dod yn fwy ymatebol yn lleol. Gallai rheolaeth weithredol ganiatáu rhywfaint o rannu adnoddau a chydgyssylltu â gwasanaethau eraill a ddatganolwyd i Gymru, gan wella perthnasoedd sefydliadol a chreu arbedion effeithlonrwydd tymor hwy.

Byddai angen sefydlu mecanweithiau ar gyfer atebolrwydd, gan gynnwys cyfrifoldeb Ysgrifennydd Cabinet neu Weinidog, a chraffu gan un o Bwyllgorau'r Senedd. Yn ogystal, byddai angen datblygu capasiti Llywodraeth

Cymru i oruchwylio cyflawni a datblygu polisi, a byddai angen mwy o staff nag sy'n bodoli ar hyn o bryd.

Byddai angen sefydlu perthnasoedd gwaith ffurfiol â llysoedd ac asiantaethau cyfiawnder troseddol eraill a gadwyd yn ôl. Fodd bynnag, byddai llwyth achosion a gofynion swyddogion prawf a staff eraill yn parhau i gael eu pennu gan bolisi a deddfwriaeth sydd wedi'u gwneud ar sail Cymru a Lloegr. Byddai hyn yn cyfyngu ar faint o newid sydd ar gael i fethodoleg prawf. Fodd bynnag, gallai adeiladu dull mwy cyfannol o ddarparu gwasanaeth helpu i greu dull gweithredu gwahanol yng Nghymru heb newid y gofynion a roddir ar staff prawf.

Byddai angen penderfynu ynglŷn â threfniadau ar gyfer ymdrin â charcharorion ar draws ffiniau hefyd. Mae carchardai Cymru yn derbyn carcharorion o Loegr, ac fel arall, ac nid oes carchar menywod neu fangreoedd a gymeradwywyd yng Nghymru. Mae hyn yn golygu y byddai angen datblygu a gweithredu trefniadau o'r dechrau un. Byddai'n rhaid trosglwyddo data rhwng y ddau wasanaeth hefyd.

Gallai model cyfundrefnol sy'n parhau'n rhan o'r gwasanaeth sifil elwa o gapasiti a rennir ar gyfer anghenion gweinyddol megis adnoddau ariannol a chyllido, a thrwy hynny leihau'r costau hyn a sicrhau bod modd i gyllidebau ganolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau. Yng Ngogledd Iwerddon, lle nad yw'r bwrdd prawf yn cael ei ystyried yn rhan o'r gwasanaeth sifil, ni chaniateir gorwario, a rhaid i'r gwasanaeth prawf gystadlu am gyllid ychwanegol yn erbyn meysydd gwariant eraill y llywodraeth, gan gyfyngu ar gapasiti staffio ac arloesi yn ymarferol.

Dylid nodi hefyd, os bydd gwasanaeth prawf datganoledig yn llwyddo i gyfeirio troseddwydd oddi wrth ddeddfrydau o garchar, y byddai costau ychwanegol rheoli'r troseddwydd hyn yn cael eu hysgwyo gan y gwasanaeth datganoledig, tra byddai'r arbedion ariannol o ganlyniad i lai o boblogaeth yn y carchar yn cael eu gweld gan Drysorlys Ei Fawrhydi a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder. Yn yr un modd, er y byddai

newidiadau i wariant ar y gwasanaeth prawf yn Lloegr yn arwain at gynnydd ym mloc grant Llywodraeth Cymru, nid oes sicrwydd y byddai'r arbedion hyn yn cael eu trosglwyddo'n llawn i wasanaeth datganoledig, a chyfrifoldeb Llywodraeth Cymru fyddai penderfynu beth yw'r ffordd orau o ddefnyddio'r cynnydd hwn.

Datganoli deddfwriaethol a gweithredol llawn

Drwy ddefnyddio Adran 109 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2005, gallai Llywodraeth y DU addasu cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd fel nad yw prawf yn faes a gadwyd yn ôl mwyach. Yna gallai'r Senedd basio deddfwriaeth sylfaenol o fewn ei chymwyseddau i sefydlu trefniadau newydd yng Nghymru. Mae'n debygol y byddai angen Deddf gan Senedd y DU hefyd, yn fwyaf arbennig er mwyn rheoli perthnasoedd rhwng y meysydd datganoledig a'r meysydd a gadwyd yn ôl yn y system gyfiawnder.

Byddai angen sefydlu trefniadau datganoledig mewn cyfraith, gan amlinellu swyddogaethau prawf a model gweithredu, â phrawf naill ai'n gweithredu fel gwasanaeth newydd neu'n cael ei uno â chorff sy'n bodoli'n barod.

Mae'r model hwn yn cynnig cymaint o hyblygrwydd ag sy'n bosibl, gan ganiatáu sefydlu gwasanaeth prawf â llechen cyn laned ag sy'n bosibl. Byddai'n sicrhau bod modd gwreiddu'r manteision y cyfeiriwyd atynt uchod ac yn hwyluso datblygu model amlwg Gymreig ymhellach. Fodd bynnag, gallai hyn gael ei gyfyngu gan ddeddfwriaeth y DU ynghylch sut y mae unrhyw gyfrifoldebau a drosglwyddir yn rhyngweithio ag asiantaethau cyfiawnder eraill a gadwyd yn ôl.

Gallai'r staff presennol drosglwyddo i gyflogwr newydd â graddfeydd cyflog ar wahân, a byddai angen sefydlu amodau gwaith a threfniadau pensiwn newydd. Mae'n bosibl hefyd y byddai angen creu cyrff newydd ar gyfer cofrestru a rheoleiddio proffesiynol, os oes angen.

Gellid datblygu trefniadau llywodraethu mewn ffyrdd newydd, gan ddiffinio perthnasoedd â

chyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru, goruchwyliaeth gan Lywodraeth Cymru, a strwythurau mewnol. Mae opsiynau amrywiol ar gyfer strwythuro gwasanaeth datganoledig, gan gynnwys gwasanaeth prawf unedig (ag o leiaf ryw lefel o drefniadaeth a chyflawniad rhanbarthol mae'n debyg), neu â'r swyddogaethau prawf yn cael eu cynnwys yng ngwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol, fel yn yr Alban. Un risg benodol sy'n gysylltiedig â'r dull olaf hwn yw y gallai swyddogion prawf sy'n gweithredu mewn sefydliad gwaith cymdeithasol ehangach gael eu hailgyfeirio at dasgau nad ydynt yn dasgau prawf. Gallai dulliau gweithredu mwy rhanbarthol hefyd arwain at fwy o ddyblygu, yn enwedig ar lefel rheolwyr canol, a byddai hynny'n arwain at wariant uwch.

Byddai angen i strwythurau goruchwyllo ystyried pynciau amrywiol, gan gynnwys perfformiad gwasanaeth, rheoleiddio proffesiynol, cysoni polisïau, cydymffurfiad cyfreithiol a rheoleiddiol, a chraffu ar Weinidogion ac uwch arweinwyr. Byddai angen penderfynu a ddylid cadw strwythurau presennol Cymru a Lloegr ar gyfer hyn, ynteu symud oddi wrthynt, er y gellid defnyddio'r strwythurau presennol yn y tymor byr-i-ganolig. Efallai y byddai hyn yn helpu i leihau costau, ond byddai gan Lywodraeth neu Senedd Cymru lai o ddylanwad dros ddiwylliant a gwerthoedd y cyrff hyn. Byddai angen penodi Ysgrifennydd Cabinet neu Weinidog cyfrifol, a chraffu yng nghyfarfodydd llawn y Senedd a thrwy bwyllgorau.

Byddai'n haws i brawf gydgyssylltu, neu hyd yn oed integreiddio, â gwasanaethau datganoledig eraill, gan hwyluso cyd-ddarparu gwasanaethau, neu rannu cyllidebau comisiynu.

Byddai angen sefydlu trefniadau ffurfiol fel yn yr achos datganoli gweithredol gyda llysoedd, asiantaethau cyfiawnder troseddol, ac ar gyfer ymdrin â charcharorion ar draws ffiniau.

Y math hwn o ddatganoli fyddai angen y swm mwyaf o adnoddau, er y byddai hynny hefyd yn golygu'r cynnydd mwyaf mewn cyllid gan Lywodraeth y DU. Yn ogystal â chostau rhedeg gwasanaeth datganoledig, mae'n debyg y

byddai costau cysylltiedig ar gyfer sefydlu cyrff goruchwyllo a rheoleiddio a chreu capasiti yn Llywodraeth Cymru ar gyfer llunio a chyflawni polisi. Nid oes sicrwydd fodd bynnag y byddai cyllid Llywodraeth y DU yn talu cost lawn darparu prawf yng Nghymru dros gyfnod, yn enwedig o ystyried y costau rheolaidd ychwanegol posibl sy'n gysylltiedig â gweinyddu a llywodraethu.

Byddai cyfyngiadau hefyd o ran yr hyn y gellir ei wneud, gan y byddai dedfrydu wedi'i gadw yn ôl gan Lywodraeth y DU am y tro. Mae hyn yn golygu y byddai'r union drefniadau ar gyfer troseddwyd yn fater i'r llysoedd, gan gyfyngu i ryw raddau ar y graddau y gallai system brawf ddatganoledig ganolbwyntio ar ymatal. Er hyn, byddai Llywodraeth Cymru yn dal i allu addasu diwylliant a gwerthoedd sefydliadol, ac mae'n bosibl y gallai ddarparu gwasanaethau mwy integredig a lleol.

Gwersi o wledydd eraill

Mae Rhan 2 yn tynnu sylw at wersi pwysig y gellir eu dysgu o wledydd eraill yn Ewrop. Un achos y mae'n werth sylwi arno yw Gwlad Belg, lle datganolwyd agweddau ar y system cyfiawnder troseddol, gan gynnwys prawf, yn 2014.

Mae nifer o wledydd eraill yn Ewrop wedi ad-drefnu eu systemau prawf dros y degawd diwethaf, mewn ymateb i gyni yn bennaf. Mae'n bwysig dysgu o'r profiadau eraill hyn er mwyn lleihau canlyniadau anfwriadol, yn enwedig o ystyried bod llawer o wledydd yn wynebu heriau gweithlu tebyg.

Casgliad

Gallai datganoli prawf ddarparu cyfleoedd i ailffurfio gwerthoedd, diwylliant, a modelau gweithredu'r gwasanaeth. Er hyn, mae'n bwysig sicrhau bod unrhyw weledigaeth hirdymor yn cael ei mynegi'n glir, yn cael ei deall, ac yn cael ei hystyried yn gynnar yn y broses o ddatganoli. Bydd hyn yn sicrhau nad yw penderfyniadau cynnar ynglŷn â dyluniad gwasanaeth

datganoledig yn anfwriadol yn cau llwybrau eraill y gallai fod angen iddynt barhau ar agor ar gyfer datblygiadau yn y dyfodol.

Gallai datganoli hefyd arwain at well cydgysylltu â gwasanaethau cyhoeddus sydd wedi'u datganoli'n barod, gan ganiatáu dull gweithredu sy'n ymateb i anghenion lleol. Er hyn, mae'n debyg mai dim ond rhai rhannau o'r system gyfiawnder fydd yn cael eu datganoli i Gymru yn y lle cyntaf, gan gynnwys prawf. Er y byddai'n mynd i'r afael â'r anghysondebau sy'n bodoli ar hyn o bryd rhwng prawf a gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, gallai datganoli rhannol greu 'anghysondebau' newydd rhwng gwasanaeth prawf datganoledig a system gyfiawnder ehangach Cymru a Lloegr. Gallai cyfrifoldebau wedi'u diffinio'n glir a threfniadau gweithio ffurfiol helpu i leihau effaith hyn ar ddefnyddwyr gwasanaeth.

Nid yw ein hadroddiad yn ceisio argymhell llwybr penodol ar gyfer datganoli prawf. Yn hytrach, mae'n ystyried manteision ac anfanteision pob un. Mae pob opsiwn datganoli yn cynnig cyfleoedd i wella; a gall hyd yn oed newidiadau ar raddfa gymharol fach arwain at wahaniaethau mwy ystyrlon a sylweddol dros gyfnod.

Yr un pryd, mae pob opsiwn yn cyflwyno heriau, megis gweithlu a llywodraethu, y mae'n rhaid eu deall a rhoi sylw iddynt yn gynnar. Bydd angen ymchwilio ymhellach i'r opsiynau hyn a'u harfarnu. Dylid ystyried datganoli fel prosiect hirdymor, â'r opsiwn ar gyfer dull gweithredu graddol os dymunir.

Yn y pen draw, bydd y llwybr a ddilynir yn dibynnu ar negodiadau rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru, a bydd yn benderfyniad gwleidyddol. Er hyn, bydd yn bwysig ystyried:

- Y graddau y mae pob opsiwn yn ymateb i bwrpas bwriadedig datganoli a'r gwerthoedd a'r egwyddorion a geisir gan Lywodraeth Cymru;
- Goblygiadau pob opsiwn o ran cyflawni swyddogaethau prawf;
- Y graddau y mae ar bob opsiwn angen cyllid ychwanegol neu ddatblygu capasiti,

a fyddai'n galw am gyllid o gyllideb Llywodraeth Cymru;

- Y graddau y byddai gwasanaeth prawf Cymreig yn rhyngweithio ag agweddau a gadwyd yn ôl ar y system cyfiawnder troseddol, yn enwedig os bydd y gwasanaeth yng Nghymru yn wahanol i'r dull a ddefnyddir yn Lloegr;
- Yr angen am weithredu gofalus, wedi'i gynllunio, a graddol er mwyn sicrhau bod cyfrifoldebau newydd yn cael eu hysgwyddo mewn ffordd sy'n diogelu staff, defnyddwyr gwasanaeth, a'r cyhoedd, tra'n hybu gwell canlyniadau i bawb.

Cyfeiriadau

Jones, R. a Wyn Jones, R. (2022). **The Welsh Criminal Justice System: On the Jagged Edge**. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru.

Llywodraeth Cymru (2024). **Sicrhau Cyfiawnder i Gymru: adroddiad cynnydd 2024**. Cafwyd o: <https://www.llyw.cymru/sicrhau-cyfiawnder-i-gymru-adroddiad-cynnydd-2024-html>

Probation Development Group. (2023). **Towards a devolved probation service in Wales**. Canolfan Troseddu a Chyfiawnder Cymdeithasol Cymru. Cafwyd o <https://wccsj.ac.uk/en/publications/2024>

Rowland, C. (2024). **The crisis in prisons**. Institute for Government. Cafwyd o <https://www.instituteforgovernment.org.uk/publication/crisis-prisons>

Rhagor o wybodaeth

Ar gyfer yr adroddiad llawn gweler:

Price, J., Notman, G., a Tilley, H. (2024). **Adeiladu gwasanaeth prawf Cymreig. Rhan 1: Modelau a llwybrau**. Caerdydd: Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

Notman, G., Price, J., a Tilley, H. (2024). **Adeiladu gwasanaeth prawf Cymreig. Rhan 2: Cymharu Gwledydd**. Caerdydd: Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

Gwybodaeth am Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

Yma yn y Ganolfan, rydym yn cydweithio ag arbenigwyr polisi blaenllaw i roi cyngor annibynnol a thystiolaeth o ansawdd da i weinidogion, y gwasanaeth sifil a gwasanaethau cyhoeddus Cymru, i'w helpu i wella penderfyniadau a chanlyniadau polisi.

Mae'r Ganolfan yn cael ei hariannu gan y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol,

Llywodraeth Cymru, a Phrifysgol Caerdydd. Mae wedi'i lleoli ym Mhrifysgol Caerdydd ac mae'n aelod o Rwydwaith What Works y DU.

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â:

Jack Price

+44 (0)29 2087 5345

info@wcpp.org.uk

Wales Centre for Public Policy

Cardiff University, Sbarc/Spark, Maindy Road, Cardiff CF24 4HQ



www.wcpp.org.uk



029 2087 5345



info@wcpp.org.uk



@WCfPP

